WG35-5-18

# MARWNAD,

ER

*COFFADWRIAETH O FARWOLAETH,*

Y Gwâs enwog hwnw i Iesu Grist,

Y

## *PARCH. HENRY DAVIES,*

(YR HYNAF,)

O

## LANGLOFFAN,

*Yr hwn a hunodd yn yr Iesu, Mai 9, 1825, yn 72 Oed.*

Efe a fedyddiwyd yn Llangloffan, yn 19 oed; bu yn aelod yno 53 o flynyddoedd; yn bregethwr yno agos i 50 o flynyddoedd, ac yn weinidog agos i 45 o flynyddoedd.


## GAN JOSEPH JAMES,
*BEULAH,*


*A Chyhoeddwyd yn ol unol gydsyniad yr Eglwys a'r Teulu.*

" A dywedodd ei arglwydd wrtho, Da, wâs da a ffyddlon: buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer: dos i mewn i lawenydd dy arglwydd."—Mat. xxv. 21.


**Hwlffordd:**

ARGRAFFWYD GAN J. THOMAS, HEOL-FAWR.


*Pris Ceiniog.*

X205307840

# MARWNAD, &c.

1 BETH yw'r newydd glywai'n lledu,
Fel y dilif dros y wlad?
Beth yw'r helaeth wylo dagrau,
Gan bob graddau yn ddiwâd?
Gynt fe wylwyd am Josiah,
Galar wnaed am Stephan wiw;
Mawr yw'r wylo welir etto,
Pan ehedo'r saint at Dduw.

2 Daccw un o rai diangol,
Wedi cyrraedd pen y daith:
Un fu'n ddiwyd anarferol,
A gorchestol yn ei waith;
Un a lwyddodd wrth gyhoeddu,
A phregethu Crist a'i groes,
I ddwyn llawer o'u trueni,
I orfoleddu yn marwol loes.

3 HENRY DAVIES oedd ei enw,
Cofir hwnw gydâ pharch,
Gan rhyw luoedd dirifedi,
'N ol ei roddi yn ei arch;
Pan f'o enwau'r galluogion,
A holl fawrion blant y byd,
Heb eu coffa, ond yn pydru,
Cofir enw HENRY o hyd.

4 Boreu cododd at ei orchwyl,
Dwy ar ugain, meddant hwy,
Pan ddechreuodd ef bregethu,
Gan gyhoeddi marwol glwy',
Fe gynnyddodd fel pregethwr,
O rhyw grydwr rhyfedd iawn,
Ac fe lwyddodd gydâ'r werin,
Anghyffredin oedd ei ddawn.

5 Ei hoff destyn, o'r dechreuad,
Oedd y cariad rhyfedd iawn,
A lewyrchodd ma's i'r eitha',
Ar Galfaria un prydnawn;
Person Crist a'i waith gorphenol,
A rhagorol ffrwythau gras,
Ydoedd swm ei weinidogaeth,
Odiaeth fe'u gosodai ma's.
6 Safai hefyd, yn dra gwrol,
Ac egnïol dros y gwir,
Gan wrthsefyll pob cynnygiad,
Wnaed i lygru'r 'fengyl bur;
Dangos wnai nad oedd *Arminiaeth*,
Na'r *Facsteriaeth* ddaeth o'i hôl,
Oll â'u sail yn ngeiriau'r Bibl,
Ond mewn tybiau gweigion ffôl.
7 Gwyddai'n rhyfedd am gyfrwysdra,
Twyll resymau 'thrawon gau,
Ac fe fedrai, ar fyr eiriau,
Eu dymchwelyd yn ddïau;
Ac am hyn, eu hamddiffynwyr
Dawent yn ei wyddfod e';
Can's hwy wyddent caent eu clwyfo
Ganddo â gwir eiriau'r ne'.
8 Mae fy nghalon yn llawn ofnau,
F' ysbryd gwan ar lwfrhau,
Wrth wel'd amryw gry' golofnau,
'N cael eu symud yn ddilai;
'Does ond 'chydig o rai dewrion,
Etto'n ffyddlon ar y ma's,
Pan mae llawer yn ymroddi,
I lwyr-lygru 'fengyl gras.
9 Arglwydd, dysg dy weinidogion,
Gwna hwy'n ffyddlon ddydd a nos,

gyhoeddi iechydwriaeth,
Lawn yn mhrydwerth gwaed y gro's;
Na foed sôn am wael amodau,
Dyledswyddau, doniau dyn,
Fyth yn sylfaen iechydwriaeth,
Ond marwolaeth Crist ei hun.

10 Dyma oedd athrawiaeth felus
'R enwog DAVIES, foreu a hwyr;
Crist yn gyflawn iechydwriaeth,
Crist yn bob peth i ni'n llwyr;
Yn ddoethineb a chyfiawnder,
A sancteiddrwydd nos a dydd,
Ac yn gyflawn brynedigaeth,
Yn yr adgyfodiad fydd.

11 B'le dangosir ar y ddaear,
Neb yn gydmar iddo fe;
Neb a fu mor offerynol,
Yn llaw rasol Brenin ne',
I ddychwelyd y fath luoedd,
O ddyfnderoedd pechod cas,
Gan eu dwyn dan nawdd y nefoedd,
I glodfori dwyfol ras.

12 Mae rhyw luoedd heddyw'n dystion,
Fod ei argyhoeddion ef,
Wedi eu hawchu a'u blaenllymu,
Gan fawr allu Brenin nef;
C'lofnau creigaidd, adamantaidd,
Fel yr haiarn, fel y dûr,
Friwiai wrth ei nefol eiriau,
Dan driniaethau'r ysbryd pur.

13 O Llangloffan! ti ge'st golled,
Colled, colli, bugail mwyn;
Un goleddai'r gwan famogiaid,
Un fynwesai'r gweinion ŵyn;

Un fu'n ffyddlon dros ei ddyddiau,
Ar dy furiau ddydd a nos;
Un yn fedrus iawn a'th borthai,
A rhinweddau gwaed y gro's.

14 Mawr yw'r cwyno glywir heddy'.
O ben Dewi fynu i Môn,
A thros fryniau uwcha' Cymru,
I Gaerdydd yr aeth y sôn;
Nid oes swydd, yn rhwydd mi greda',
Yn ngwyllt Walia, nad oes llu,
'N llawn dagrau, a'u llon'd dristwch,
Waith ei ro'i mewn daear ddû.

15 Abergwain, tost yw dy archoll,
Ti ge'st golled, colli hwn,
Un a'th gynnorthwyai'n ddyfal,
Gan dy gynnal dan dy bwn;
Dala wnai'r llwynogod bychain,*
Oedd yn difa'r egin grawn,
Gan weinyddu at dy angen,
Ddidwyll laeth o foreu i nawn.

16 Mae'r eglwysi darddodd allan,
O Langloffan yn ei ddydd,
Yn llawn galar, waith ei golli,
Pawb o'r bron yn eitha' prudd;
Felin Ganol, Tabor, Trefdraeth,
Jabes, Beulah, yr un wedd,
Oll yn wylo a thywallt dagrau,
Waith ei ro'i ar waelod bedd.

17 Bu'n cyhoeddi iechydwriaeth,
Pum-deg o flynyddau gwiw,
Heb gyfnewid mewn athrawiaeth,
Na dwyn anair ar ffyrdd Duw;

* Hyny yw, Pechodau yn eu blaen-darddiad, a gau-athrawiaethau yn eu cyfodiad.

Cerddai'r llwybr cul yn gywir,
Heb dramgwyddo ar un llaw;
A phan ddaeth e' i borth marwolaeth,
Trwodd aeth heb brofi braw!

18 Mae ugeiniau heddyw'n dystion,
O nefolaidd hwyl y gwr,
Yn yr afon, wrth weinyddu,
Dros ei Arglwydd, fedydd dw'r;
Llawer blygodd mewn ufudd-dod,
Puraidd, parod, i air Duw,
Gan wir rasol iawn gyffesu,
Rhyfedd ras ein Iesu gwiw!

19 Ffarwel DAVIES, mae'th rinweddau,
Uwchlaw cyrraedd geiriau dŷn,
Ond rhaid cofio fod eu tarddiad,
Oll yn nghariad Duw ei hun;
Gras o lawnder y Gwaredwr,
A'th addurnodd ar y llawr;
Pwy all draethu dy ddysgleirdeb,
'Nawr ger bron yr orsedd fawr?

20 O'r fath hynod gyfnewidiad,
Wnaeth y * lleiddiad ar bob llaw;
Troi dy gorff i'w waeledd cynta',
D' ysbryd i'r baradwys draw;
Mewn un aeliad 'roedd dy enaid,
Seraph tanbaid yn ddible,
Fyrdd dysgleiriach nag yw'r haulwen,
Yn ffurfafen nef y ne'!

21 Cwrddest yno â'th hen frodyr,
Aeth o'r frwydr o dy fla'n;
Rhai fu gynt yn cyd-bregethu,
Gydâ thi'r efengyl lân;

* Hyny yw, Yr angeu.

Dafydd Lewis, a John Williams,
Thomas Lewis gydâ hwy,
A John Reynolds, yn cyd-ganu,
Am rinweddau dwyfol glwy'.

22 Mae'ch cymdeithas yno yn berffaith,
A'ch caniadau heddyw'n bur,
Eich llawenydd yn annhraethol,
Bythol yn y nefol dir;
Prof'soch beth o'r blaenffrwyth melus,
Yn y dyrus anial wlad;
'Nawr cewch nofio'r môr diderfyn,
Gobaith lyngcwyd mewn mwynhad.

23 Nid yw'r 'chydig allaf dd'wedyd,
Mewn mawr ofid am fy mrawd,
Ond rhyw ddegwm o'i rinweddau,
Ddont i'r goleu yn nydd brawd;
Pan gyhoeddir mewn modd eglur,
Ei holl lafur a'i leshâd,
Can's gwobrwyir llafur cariad
Pawb a gyfiawnheir yn rhad.

24 Wrth ddiweddu fy ngalarnad,
Fy nymuniad at fy Nuw,
Sydd am gysur cryf i'r weddw,
Tra f'o'i yn y byd yn byw;
Ac i'w blant boed nerth i rodio,
Fyth yn ffyrdd eu hanwyl tad,
Nes cael 'hedeg yno ato,
I ganu am rinweddau'r gwa'd.

25 O, Llangloffan! paid â'th wylo,
Cofia fod dy anwyl Dduw,
Wedi trefnu ei Fab serchogaidd,
I ti'n fugail gweddaidd gwiw;
Fel duwinydd mae'n rhagori,
Ar laweroedd yn y byd;

O rhagored hyd y diwedd,
Nes myn'd mewn i'r nefoedd glyd.

26 Ffarwel, DAVIES, do' fi'th ganlyn,
Troedia' i'r dyffryn, croesa' i'r glyn;
Ni fuom yma'n cyd-bregethu,
Cawn gyd-ganu yn ol hyn;
'Roedd ein barn am byngciau crefydd,
Yn gyd-gordiol ar y llawr;*
Bydd ein cân yn berffaith felly,
Yn y trag'wyddoldeb mawr.

27 Arglwydd, nid wy'n ceisio rhagor,
Tra f'wy'r ochor hon i'r bedd,
Nâ gwroldeb a ffyddlondeb,
Dros bob rhan o efengyl hedd;
Heb gymmysgu'r llaeth iachusol,
A dw'r dynol, dybiau dyn;
Ond, fel DAVIES, traethu'n helaeth,
Benarglwyddiaeth gras ei hun.

28 Un fil wyth cant pump ar ugain,
Oedran cywrain Crist ein Pen,
Pan ddiangodd DAVIES adre'
At y llu sy' o fewn i'r llen;
Nawfed dydd o Fai esgynodd,
O'r tymestloedd ar y llawr,
A chyn hanner dydd dechreuodd,
Seinio'n bêr yr anthem fawr.

* Hyny yw, Mor bell ag yr oedd i'w ddisgwyl.

DIWEDD.

Argraffwyd gan James Thomas, Heol-Fawr, Hwlffordd.